

Darpar fabwysiadwyr

:

Rydym yn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol fel Gwasanaeth Mabwysiadu ar ran y pum awdurdod lleol a hefyd yn darparu ystod o wasanaethau sy'n ymwneud â mabwysiadu.

Gan mai Blaenau Gwent yw'r sefydliad cynnal ar gyfer SEWAS, am ragor o wybodaeth am sut mae Blaenau Gwent yn defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein [hysbysiad preifatrwydd](#) corfforaethol ar ein gwefan.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn wybodaeth ychwanegol sy'n benodol i'r modd y mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS) yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol.

Ymdrinnir â materion o ran sut mae data'n cael ei drin gan Swyddog Diogelu Data Cyngor Blaenau Gwent y gellir cysylltu â hwy trwy e-bost:
DataProtection@blaenau-gwent.gov.uk

Ein prif weithgaredd yw gwirio a yw pobl a hoffai fabwysiadu plentyn yn addas i fod yn fabwysiadwyr. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i ni gasglu llawer o wybodaeth bersonol am y mabwysiadwyr posibl a'r bobl sydd wedi bod yn bwysig yn eu bywydau. Mae hyn oherwydd bod y cyfreithiau sy'n ymwneud â mabwysiadu yn golygu bod yn rhaid inni wirio'n drylwyr.

Yn ogystal ag asesu mabwysiadwyr, rydym hefyd yn gweithio gydag ystod o bobl sy'n cael eu heffeithio gan fabwysiadu ac ar adegau bydd angen cael gwybodaeth bersonol ganddynt. Er enghraifft, rydym yn derbyn ceisiadau am gymorth ôl-fabwysiadu a'r cynllun 'blwch llythyrau'. Nid oes angen cymaint o wybodaeth bersonol ar y rhain fel y broses fabwysiadu ei hun, ond bydd angen inni gael rhywfaint o wybodaeth bersonol gyfyngedig.

gyda hwy yn ymwybodol o'r math o wybodaeth sydd ei hangen cyn iddynt wneud cais i fabwysiadu.

Mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y gall unrhyw un arall gael mynediad at y wybodaeth a gedwir amdanoch chi a dim ond pan esbonir yr amgylchiadau hyn yn y ddeddfwriaeth fabwy

